# ateb

Myfyrio ynghylch 2020
Myfyrio ynghylch 2020

Bwletin Myfyrio 1

## SICRHAU BOD RHENTI'N DAL YN FFORDDIADWY

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd tu hwnt i bob un o'n cwsmeriaid, a dyna pam y gwnaethom gyfyngu ar godiadau rhent am yr ail flwyddyn ers i ni lansio ein polisi rhenti fforddiadwy. Dyma ein Cadeirydd, David Birch, i esbonio...

"Roedd y Bwrdd yn awyddus i ymateb i'r pryderon cynyddol am renti a thanwydd fforddiadwy yn ein cartrefi cymdeithasol. Ers 2 flynedd, mae ein rhenti wedi'u pennu yn unol â'n polisi rhenti fforddiadwy, a gafodd ei seilio ar ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree. Mae'r polisi yn golygu ein bod wedi cyfyngu codiadau i ffigur Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynegai Prisiau Defnyddwyr, a oedd 1% yn is na'r codiad rhent dichonadwy y gellid bod wedi'i gyflwyno. Yn ogystal, penderfynodd y Bwrdd barhau i rewi rhenti am y drydedd flwyddyn yng nghyswllt ein 595 o gartrefi rhent canolradd, er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Mae ein cyfartaledd rhent gyda'r mwyaf cystadleuol o hyd ymhlith y cymdeithasau tai sydd yn Sir Benfro.

Un rhan yn unig o'n pryder am fforddiadwyedd yw rhent. Yn rhan o'n cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd, byddwn dros y flwyddyn nesaf yn datblygu cynlluniau ateb i leihau'r ynni sy'n ofynnol i wresogi cartrefi, ac felly'n lleihau costau ein cwsmeriaid."



**Rhenti 500+ o gartrefi'n codi 0% am 3 blynedd**

**Rhenti'r rhan fwyaf o gartrefi eraill yn codi'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn unig am 2 flynedd**

**Cyfartaledd rhenti wythnosol yn is na landlordiaid cymdeithasol cofrestredig tebyg**

Mae cyflwyno ein polisi rhenti a datblygu strategaeth ddatgarboneiddio er mwyn lleihau costau tanwydd yn gamau mawr tuag at wella fforddiadwyedd ein cartrefi a helpu Cymru i gyrraedd ei tharged o ran bod yn sero-net.

Nick Hampshire
**Prif Weithredwr**
**Grŵp ateb Cyfyngedig**

Mae Grŵp ateb yn cynnwys

**ateb** *better living solutions*
Landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â 3,000 o gartrefi ac sy'n gweithredu yng ngorllewin Cymru.

**millbay** Welcome Home
Cwmni cyfyngedig dan berchnogaeth lwyr, sy'n rhoi derbyniadau rhoddion cymorth yn ôl i'w riant at ddibenion cymdeithasol.

**West Wales Care & Repair / Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru**
Asiantaeth gofal a thrwsio sy'n cynorthwyo pobl hŷn a mwy agored i niwed sydd naill ai'n berchen ar eu cartref eu hunain neu'n rhentu eu cartref, drwy roi cyngor iddynt am fudd-daliadau a gwneud addasiadau i'w cartref er mwyn lleihau'r amser na fyddant yno.